

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Meddygfa Cambria

Dyddiad y gweithgarwch: 28 Chwefror  
2023

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ebrill 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Cambria (Hwb Iechyd Cybi), Ucheldre Ave, Caergybi LL65 1RA fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol i bobl yn ardal Caergybi a'r cyffiniau.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio i ba raddau y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a chanllawiau cysylltiedig.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn ymwneud yn benodol â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae gwiriadau ansawdd yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cyrraedd y safonau perthnasol mewn ffordd ystwyth, gan ein galluogi i roi cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithredu'r gwasanaethau mewn ffordd ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis, Dirprwy Reolwr y Practis a'r Meddyg Teulu Arweiniol ar 28 Chwefror a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith sy'n cynnal safonau atal a rheoli heintiau cyfredol er mwyn diogelu cleifion, staff ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sydd ar waith i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod y practis yn cynnal yr ansawdd disgwylidig o ran gofal cleifion ac o ran cyflenwi gwasanaethau?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

- 
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill? Gall hyn gynnwys timau iechyd meddwl, gwasanaethau gofal eilaidd a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Asesiadau / archwiliadau risg amgylcheddol
- Adroddiadau gwella ansawdd
- Adroddiadau'r prosiect cydleoli.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu drwy ddefnyddio gwasanaeth llenwi ffurflen ar-lein. Ond dywedwyd wrthym fod cleifion weithiau'n gorfod aros ar y ffôn am gyfnodau hir ar adegau prysur, er enghraifft yn gynnar yn y bore. Roedd apwyntiadau ar yr un diwrnod yn cael eu cynnig fel mater o drefn, ac mae nifer cymedrol o apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw ar gael. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu ar adeg yr alwad gwirio ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr y gellir diwallu anghenion cleifion ac atgyfnerthu disgwyliadau.

Roedd system gyfeirio ar waith gan y practis yn lle system brysbenneu draddodiadol er mwyn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion. Gallai hyn gynnwys ymgynghoriad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn gan ddibynnu ar y broblem. Meddyg teulu ar ddyletsydd y neilltuwyd amser gwarchoddedig iddo oedd yn ymgymryd â'r gwaith hwn, a dywedwyd wrthym fod rhai o'r staff gweinyddol wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar er mwyn helpu i gyfeirio cleifion at y clinigydd mwyaf priodol.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y gwasanaethau a ddarperir i gartref gofal lleol wedi cael eu hailgyflwyno drwy rowndiau ward wythnosol naill ai'n rhithwir neu wyneb yn wyneb. Roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan y meddyg teulu arweiniol a pharafeddyg. Roedd yn galonogol cael gwybod bod yr adolygiadau clinigol blynyddol o'r cleifion sy'n byw yn y cartref gofal wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar.

Dywedwyd wrthym fod staff clinigol ac anghlinigol sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddiwallu anghenion cleifion pan oedd yr anghenion hynny'n hysbys neu pe cafwyd cais. Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn awyddus i ddarparu cynnig rhagweithiol gwell i'r cleifion fel rhan o'r prosiect cydleoli.

Roedd agweddau ar iechyd a diogelwch a oedd yn gysylltiedig â'r safle wedi cael eu hystyried

---

drwy amrywiaeth o archwiliadau ac asesiadau risg. Nodwyd gennym fod llawer o gamau gweithredu wedi'u cwblhau er mwyn lleihau'r risg i'r staff, y cleifion ac ymwelwyr. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda chymorth gan y bwrdd iechyd i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Aseidiadau risg a gynhaliwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau
- Amserlenni glanhau
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd y practis yn dilyn amrywiaeth o weithdrefnau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Cadarnhawyd gennym fod y gweithdrefnau hyn wedi cael eu hadolygu a'u mabwysiadu cyn belled ag y bo'n bosibl yn unol ag anghenion lleol y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod agweddau ar atal a rheoli heintiau wedi cael eu hystyried fel rhan o aseiad risg a disgrifiodd rheolwr y practis amrywiaeth o archwiliadau a hapwiriadau a gaiff eu cwblhau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Roedd dau aelod o'r tîm domestig yn gweithio yn y practis ac roedd gweithdrefnau lleol ar gael iddynt eu dilyn er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau'n lân ac yn hylan. Pwysleisiodd rheolwr y practis fod cyfrifoldeb ar bob aelod o'r staff i sicrhau arferion da o ran atal a rheoli heintiau a gwelsom fod rhai tasgau penodol yn cael eu dirprwyo i aelodau clinigol o'r staff lle y bo'n briodol.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom gadarnhad fod nifer o'r staff clinigol ac anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol ar atal a rheoli heintiau a oedd yn briodol ar gyfer eu rolau. Fodd bynnag, roedd y gyfradd gwblhau honno yn is na chyfradd gwblhau ddisgwyliedig y bwrdd iechyd ei hun. Dywedodd rheolwr y practis wrthym cyn y gwiriad ansawdd fod amser hyfforddi penodol wedi'i neilltuo i'r staff clinigol er mwyn iddynt gwblhau'r hyfforddiant cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau i AGIC fod yr hyfforddiant hwn bellach wedi'i gwblhau.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent yn rheoli eu gwasanaethau er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaethom archwilio'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn cynnal ansawdd gofal cleifion.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Polisiâu uwchgyfeirio / parhad busnes
- Data llais y claf
- Adroddiadau gwella ansawdd
- Adroddiadau'r prosiect cydleoli
- Cofnodion cyfarfodydd staff
- Data ar ddigwyddiadau.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Ar adeg cynnal y gwiriad ansawdd, roedd y bwrdd iechyd yn bwriadu cydleoli'r practis hwn a Phractis Longford a oedd wedi'i leoli mewn ardal gyfagos, gyda'r nod o wella profiad y claf a chynaliadwyedd ei wasanaethau. Mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo o hyd ac nid yw'n rhan o gwmpas y gwiriad ansawdd hwn, ond mae'n bwysig ei nodi er mwyn gallu rhoi'r canfyddiadau hyn yn eu cyd-destun.

Ymddengys fod tîm y practis wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wella ei sefyllfa ers y pandemig. Gwelsom fod y gweithlu clinigol ychydig yn fwy sefydlog, bod trefniadau rheoli ac arwain clinigol ac anghlinigol ar waith, a bod awydd i wella mynediad cleifion at wasanaethau clinigol a'r gwasanaethau clinigol sydd ar gael i'r cleifion hynny. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno clinigau ychwanegol, adolygiadau clinigol ac adolygiad o lwybrau cleifion.

Roedd y practis wedi cynnal ymarferion ac archwiliadau gwella ansawdd yn ddiweddar. Roedd yn amlwg bod y prosesau hyn wedi helpu tîm y practis i feithrin gwybodaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r meysydd y mae angen eu hatgyfnerthu. Roedd yn gadarnhaol gweld bod nifer o'r meysydd hyn wedi'u nodi fel meysydd wedi'u cwblhau neu fod cynnydd wedi'i wneud yn unol â'r disgwyliadau.

Pwysleisiodd tîm y practis y gwelliant a fu o ran dynameg y tîm, a dywedwyd wrthym fod y gwelliant hwnnw wedi'i gyflawni drwy ailgyflwyno cyfarfodydd tîm i'r staff a chynnal sesiynau hyfforddi ar y cyd. Roedd yn gadarnhaol nodi bod adborth gan gleifion ac unrhyw wersi a ddysgwyd wedi'u cynnwys yn y fforymau hyn.

Roedd yn galonogol nodi bod modd ymgysylltu â'r clwstwr meddygon teulu lleol unwaith eto ers penodi arweinydd clinigol.



---

## **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod y galw ar y practis yn uwch na'r lefel y gall ei bodloni, a allai gyfyngu o bosibl ar lefel y gwasanaeth rhagweithiol y mae'r practis am ei darparu.

Nodwyd gennym fod bylchau yn y gweithlu, o ran grwpiau staff clinigol ac anghlinigol, a bod y practis yn disgwyl gweld mwy o fylchau yn y dyfodol. Gwelsom dystiolaeth fod ceisiadau i ehangu'r gweithlu wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar, ond nad oedd y bwrdd iechyd wedi eu derbyn, er gwaethaf y ffaith bod angen amlwg e.e. adnodd iechyd meddwl. Roedd y gweithlu mewn rhai o'r grwpiau staff yn anghyson hefyd, yn ôl pob golwg, o ganlyniad i'r bylchau hyn a nifer o swyddi rhan amser. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun gweithlu cadarn ar waith fel rhan o'r prosiect cydleo'i. Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall wneud yn siŵr y gellir diwallu anghenion y practis o ran adnoddau ac, yn gysylltiedig â hynny, sut y gellir diwallu anghenion cleifion yn y cyfamser.

Nodwyd gennym fod cynllun ar waith i benodi arweinydd diogelu clinigol penodol ar gyfer y practis. Rheolwr y practis oedd yn ymgymryd â'r rôl hon ar hyn o bryd, gyda chymorth clinigol pan fo'i angen. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid penodi clinigydd i'r swydd hon cyn gynted â phosibl, ac y dylid darparu hyfforddiant hyd at lefel briodol.

Gwnaethom nodi sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol â gwasanaethau eraill, fel gwasanaethau gofal eilaidd. Roedd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau amserol i wasanaethau gofal eilaidd, fel pediatreg ac orthopedeg. Fodd bynnag, roedd anawsterau neu anghysondebau yn y broses ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau eraill ar draws y bwrdd iechyd. Nodwyd gennym y gallai hyn atal cleifion rhag cael gofal amserol, ac y gallai hefyd gynyddu llwyth gwaith clinigwyr y practis. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gofyn i bractisau am adborth a'i fod yn gweithredu'n unol â'r adborth hwnnw lle y bo'n briodol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad:

Ward/Adran/Gwasanaeth

Dyddiad y gweithgarwch:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes angen unrhyw welliannau ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

## Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Practis a Reolir gan Fwrdd Iechyd  
Gwasanaeth: Hwb Iechyd Cybi  
Dyddiad y gweithgarwch: Ebrill 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau i AGIC fod yr hyfforddiant atal a rheoli heintiau wedi'i gwblhau gan y staff clinigol fel sy'n ofynnol.	Safon 2.4	Gwnaed cryn dipyn o hyfforddiant a gwaith llywodraethu fel rhan o'r gweithgarwch atal a rheoli heintiau ym mhob practis dros gyfnod o sawl mis ers cyflogi'r Fetron Practis a Reolir; Caiff amser penodol ei neilltuo i'r staff gwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a chaiff hyrwyddwyr atal heintiau penodol eu nodi. Caiff cofnodion eu gwirio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gan bob aelod o'r tîm.	Metron Practis a Reolir	30 Ebrill 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun gweithlu cadarn ar waith fel rhan o'r prosiect cydleoli.  Yn y cyfamser, rhaid i'r bwrdd	Safon 7.1	Mae gwaith Cynllunio'r Gweithlu yn weithgarwch parhaus wedi'i lywio gan y galw ar wasanaethau a hefyd gan yr anghenion sy'n gysylltiedig â'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Caiff strwythur cadarn ei ddatblygu a'i roi ar waith erbyn haf 2023.	Pennaeth Gwasanaeth Practisau a Reolir	30 Mehefin 2023

iechyd ystyried sut y gall wneud yn siŵr y gellir diwallu anghenion y practis o ran adnoddau ac, yn gysylltiedig â hynny, sut y gellir diwallu anghenion cleifion.		Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau'n ymrwymedig i roi'r prosiect cydleoli ar waith, ac o ganlyniad, bydd yr holl wasanaethau ar un safle.		
<b>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff clinigydd ei benodi i'r swydd ddiogelu cyn gynted â phosibl, ac y darperir hyfforddiant hyd at lefel briodol.</b>	Safon 2.7	Nodwyd unigolyn ar gyfer rôl yr arweinydd diogelu, a chaiff hyfforddiant ac adnoddau priodol eu darparu.  Cyflwynir gwybodaeth briodol ar wefan y practis, i'r Tîm Contractau ac i staff y Practis o fewn wythnos i'r penodiad  Pob aelod o'r staff i sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu (oedolion a phlant) ar lefel briodol o fewn 1 mis	Pennaeth Gwasanaeth Practisau a Reolir	31 Mai 2023
<b>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gofyn i bractisau am adborth am y trefniadau rhyngweithio â gwasanaethau gofal eilaidd.</b>	Safon 7.1	Caiff y broses hon ei rhoi ar waith drwy'r grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch IHC; y Grŵp Rhyngweithio rhwng Gofal Eilaidd/Gofal Sylfaenol parhaus a thrwy'r Grŵp Cyfarwyddwyr IHC	Cyfarwyddwr Meddygol IHC - Gofal Sylfaenol	31 Mai 2023, ond yn barhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** Keith Amos

**Teitl swydd:** Pennaeth Gwasanaeth Practisau a Reolir

Dyddiad: 11 Ebrill 2023